Further Education NI

# Mynd i'r afael â'r canol coll – ailsgilio, uwchsgilio, dilyniant a llwybrau dysgu gydol-oes

Libby Shackels, Cyfarwyddwr Cwricwlwm, Coleg Rhanbarthol y De

## Cefndir a model canolfan cwricwlwm

Mae Gogledd Iwerddon wedi arwain ymagwedd drawsnewidiol at addysg bellach (AB) sy'n mynd i'r afael â bylchau sgiliau rhanbarthol, gan gynorthwyo â datblygiad economaidd a meithrin dysgu gydol-oes.

Mae chwe choleg rhanbarthol Gogledd Iwerddon yn gweithredu ar draws 30 o gampysau, gan wasanaethu cymunedau trefol a gwledig. Mae'r sefydliadau hyn yn gyrff cyhoeddus anadrannol sy'n adrodd i Adran yr Economi, ac mae ganddynt fandad deuol: lleihau'r diffyg sgiliau ac ehangu mynediad at addysg. Mae'r colegau'n chwarae rhan ganolog mewn datblygiad economaidd, trosglwyddo gwybodaeth a chynhwysiant cymdeithasol, gan gynnig addysg a hyfforddiant o Lefel 2 i Lefel 6 ar draws ystod eang o sectorau.

Cyflwynwyd model canolfan cwricwlwm yn 2018 mewn ymateb i lwyddiant strategaeth Mae Addysg Bellach yn Golygu Llwyddiant Adran yr Economi. Mae pob coleg yn arwain canolfan ddynodedig sydd wedi'i alinio â sector economaidd allweddol, fel Gwyddorau Bywyd neu Adeiladu, ac mae gan y canolfannau hyn y dasg o ddatblygu cwricwla ymatebol sy'n cael eu llywio gan y diwydiant. Maent hyn yn canolbwyntio ar adolygu'r cwricwlwm, llwybrau dilyniant, arloesedd digidol, ymgysylltiad economaidd a diogelu'r ddarpariaeth ar gyfer y dyfodol.

Mae 7 canolfan gwricwlwm wedi'u sefydlu mewn 3 cham:

- Technoleg Gwybodaeth Ddigidol (Coleg Metropolitan Belfast)
- Lletygarwch a Thwristiaeth (Coleg Metropolitan Belfast)
- Entrepreneuriaeth (Coleg Rhanbarthol y Gogledd)
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Coleg Rhanbarthol y Gogledd-Orllewin)
- Adeiladu (Coleg Rhanbarthol y De-Ddwyrain)
- Gwyddorau Bywyd (Coleg Rhanbarthol y De)
- Peirianneg a Gweithgynhyrchu Uwch (Coleg y De-Orllewin)

belfast met | NORTHERN Regional College | north west regional college | SERC | src Southern Regional College | SouthWest College

**Model Darlithydd Arbenigol: Astudiaeth achos mewn TG**

Yn 2021-22, cyflwynodd Coleg Rhanbarthol y De (SRC) rôl y Darlithydd Arbenigol i ddyfnhau ymgysylltiad â diwydiant a chyd-ddylunio'r cwricwlwm. Mae'r darlithwyr hyn yn neilltuo cryn lawer o amser i weithio'n uniongyrchol gyda chyflogwyr, gan ddatblygu hyfforddiant achrededig, fesul darnau bach, wedi’i alinio ag anghenion y diwydiant. Mewn TG, er enghraifft, mae SRC wedi creu dros 15 o lwybrau technegol Lefel 4 a 5 mewn meysydd fel *blockchain*, deallusrwydd artiffisial, rhithwiroli a seiberddiogelwch, pob un wedi'i gymeradwyo'n llawn gan y diwydiant ac yn denu dros 250 o geisiadau gan ddysgwyr.

Mae Darlithydd Arbenigol TG yn SRC yn cydweithio â thua 140 o gyflogwyr, gan gynnwys busnesau bach a bach iawn, i sicrhau bod y cwricwlwm yn berthnasol yn dechnegol ac yn barod ar gyfer cyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys partneriaethau â chyrff dyfarnu fel OCN NI a phrifysgolion fel Ulster a'r Brifysgol Agored. Trwy academïau sgiliau a mentrau Datblygiad Proffesiynol Parhaus, mae dysgwyr yn ennill ardystiadau cydnabyddedig gan y diwydiant (e.e. Microsoft, AWS) ac yn cael eu paratoi ar gyfer rolau mewn sectorau lle mae galw mawr.

**Model Darlithydd Arbenigol**

**Ymwneud â'r diwydiant i ddatblygu llwybrau mewn Cyfrifiadura**

**Y nod yw gwneud y cwricwlwm yn berthnasol yn dechnegol ac yn barod i'r diwydiant**

**Gwneud y mwyaf o gyfranogiad myfyrwyr ar draws pob lefel (Lefelau 2-6)**

**Effaith ac arloesedd**

Mae'r model hwn wedi galluogi SRC a'i golegau partner i gyflwyno dysgu hyblyg, modiwlaidd sy'n cefnogi uwchsgilio, ailsgilio a dilyniant. Mae hefyd yn alinio â blaenoriaethau’r llywodraeth megis cydbwysedd rhanbarthol, cynhyrchiant a thargedau sero net. Mae cyfranogiad y colegau yn *WorldSkills* a chystadlaethau rhyng-gampws yn gwella ymgysylltiad dysgwyr a'u parodrwydd ar gyfer cyflogaeth ymhellach.

Trwy wreiddio cydweithio â diwydiant mewn cynllunio a chyflwyno’r cwricwlwm, mae colegau Gogledd Iwerddon yn gweithredu fel catalyddion ar gyfer trawsnewid economaidd rhanbarthol ac yn darparu dysgwyr â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y gweithlu yn y dyfodol, tra’n cynnig cefnogaeth i gyflogwyr a chymunedau fel ei gilydd. Mae'r modelau Darlithydd Arbenigol a Chanolfan Cwricwlwm yn cynnig fframweithiau y gellir eu hatgynhyrchu ar gyfer addysg ymatebol, gynhwysol ac effeithiol.

Cyflwynwyd yr astudiaeth achos hon yng ngweminar QAA Cymru 'Cardiau-post micro-gymwysterau o'r Gwledydd: Digwyddiad rhannu arferion â ffocws ar ddatblygu micro-gymwysterau ledled y DU' ar 3ydd Mehefin 2025. Roedd y weminar yn rhan o waith y Grŵp Diddordeb Arbennig Micro-gymwysterau (MIC.SIG) a ariennir gan Medr.

Gallwch ddysgu mwy am MIC.SIG ar wefan QAA Cymru.